# Arolwg 2016 o Gychod Pysgota Masnachol dan 10m

## Amcanion

Nod cynnal yr arolwg o gychod oedd:

- Cynnal a gwella cysylltiad â fflyd Cymru o gychod cofrestredig dan 10m
- Gwella dealltwriaeth o'r fflyd drwy gasglu data gan ddefnyddio holiadur
- Rhoi copi wedi'i laminadu i bob cwch cofrestredig dan 10m yng Nghymru o ddwy dudalen flaen ei drwydded er mwyn ei gadw ar y cwch
- Coladu cronfa ddata gynhwysfawr o luniau o bob cwch, ynghyd â lluniau o'r motor allanol

## Cyflwyniad

Mae tua 400 o gychod trwyddedig dan 10m yng Nghymru ar unrhyw un adeg, er bod y ffigur hwn yn amrywio bron bob wythnos. Mae'r rhan fwyaf o gychod cofrestredig yng Nghymru dan 10m. Am fod y cychod hyn yn fach ac yn gallu cael eu gwthio i'r môr â threlar neu eu mwrio mewn morgeinciau ynysig, gall fod yn heriol cynnal cysylltiad â'r rhan hon o'r diwydiant.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r fflyd dan 10m yng Nghymru a bod ganddi ddealltwriaeth dda ohoni. Yn 2016, cafodd holiadur ei lunio a'i rannu â swyddogion y pysgodfeydd er mwyn iddynt ei gwblhau drwy drafod â'r pysgotwyr trwyddedig yn eu hardal. Yr arolwg yn 2016 oedd y cyntaf o'i fath a gellir adeiladu arno a'i wella gyda'r nod o ddeall diwydiant pysgota cyfan Cymru yn well.

## Dull Gweithredu


Cafodd copïau o ddwy dudalen flaen trwyddedau cychod dan 10m yng Nghymru a'r holiadur eu rhannu â swyddogion y pysgodfeydd perthnasol. Gwnaeth swyddogion y pysgodfeydd ddosbarthu'r rhain â llaw i bysgotwyr y cychod trwyddedig dan 10m ac achub ar y cyfle i gwblhau'r holiadur ar yr un pryd.

Yna, cafodd canlyniadau'r holiadur eu nodi mewn taenlen er mwyn eu dadansoddi.


## Canlyniadau

Gwnaeth y swyddogion gyfarfod a chwblhau'r holiadur â 337 (81%) o'r 415 o ddeiliaid trwyddedau yn 2016. Dangosir dadansoddiad o'r prif ymatebion isod:

**Ffigur 1.** Siart gylch yn dangos canran y pysgotwyr sy'n aelod o gymdeithas bysgota. O'r 337 o bysgotwyr a gafodd eu cyfweld, nid oedd 189 (49%) ohonynt yn aelod o gymdeithas. Cadarnhaodd 143 (37%) ohonynt eu bod yn aelod o gymdeithas, ac nid ymatebodd 53 (14%) ohonynt.




**Ffigur 2.** Siart gylch yn dadansoddi canran y pysgotwyr sy'n aelod o gymdeithas.




**Tabl 1. Nifer y pysgotwyr sy'n aelod o gymdeithas bysgota**

| **Cymdeithas** | **Nifer y pysgotwyr** |
|---|---:|
| Dim ateb | 53 |
| Na | 189 |
| Ie – heb ei nodi | 35 |
| Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru Cyf | 31 |
| Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru Cyf | 22 |
| Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn | 16 |
| Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion Cyf | 13 |
| Cwmni Cydweithredol Pysgotwyr Gogledd Cymru | 11 |
| Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn | 6 |

Yn ôl yr ymatebion i'r holiadur, y gymdeithas bysgota fwyaf o ran aelodaeth oedd Cymdeithas Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru gyda 31 o aelodau (Ffigur 2, Tabl 1).

Roedd ymatebion i'r cwestiwn yn yr holiadur ynghylch aelodaeth o gymdeithas bysgota yn brin am fod 53 o ffurflenni wedi cael eu dychwelyd heb ateb, a dywedodd 35 o bysgotwyr eu bod yn aelod o gymdeithas heb nodi pa un (Tabl 1).





**Ffigur 3.** Siart gylch o'r rhywogaethau a dargedir yn ôl canran y cychod.

**Tabl 2.** Rhywogaeth a dargedir yn ôl nifer y cychod. Y rhywogaethau a dargedir fwyaf gan y fflyd dan 10m yng Nghymru yw draenogiaid y môr (23% o'r fflyd dan 10m), cimychiaid (23%), crancod (16%), corgimychiaid (8%), hyrddiaid (7%) a chregyn moch (6%) (Ffigur 3).

| **Rhywogaeth** | **Nifer y cychod sy'n ei thargedu** |
|---|---|
| Draenogiaid y môr | 168 |
| Cimychiaid | 167 |
| Crancod | 114 |
| Hyrddiaid | 48 |
| Corgimychiaid | 59 |
| Cregyn moch | 42 |
| Morgathod | 35 |
| Lledod cochion | 24 |
| Lledod chwithig | 21 |
| Lledod mwd | 19 |
| Penfreision | 12 |
| Cregyn bylchog | 11 |
| Morleisiaid | 3 |
| Penwaig | 2 |
| Morgwn | 1 |
| Crawcwyr | 1 |
| Llysywennod | 1 |

**Ffigur 1. Siart far yn dangos dosbarthiad pŵer cychod mewn kW.** Roedd y rhan fwyaf o gychod dan 10m yng Nghymru dan 110 kW.



**Tabl 3. Rhestr o'r prif borthladdoedd cartref gyda nifer y cychod**

| Porthladd cartref | Nifer y cychod |
|---|---|
| Porth Tywyn | 25 |
| Aberdaugleddau | 19 |
| Abertawe | 17 |
| Llanelli | 16 |
| Aberteifi | 14 |
| Caergybi | 12 |
| Abergwaun | 11 |
| Saundersfoot | 10 |
| Amlwch | 9 |
| Abersoch | 8 |
| Biwmares | 7 |
| Caernarfon | 7 |
| Conwy | 7 |
| Mostyn | 7 |
| Solfach | 7 |
| Aberystwyth | 6 |
| Cei Connah | 6 |
| Neyland | 6 |
| Porth Penrhyn | 6 |
| Porthdinllaen | 6 |
| Bagillt | 5 |
| Rhoscolyn | 5 |
| Dinbych-y-pysgod | 5 |
| Dale | 4 |
| Ceinewydd | 4 |
| Porth Colmon | 4 |
| Trefor | 4 |
| Abercastell | 3 |
| Angle | 3 |
| Abermaw | 3 |
| Freshwater East | 3 |
| Maes-glas | 3 |
| Aber Bach | 3 |
| Porth Meudwy | 3 |
| Porthcawl | 3 |
| Porthgain | 3 |
| Pwllheli | 3 |
| Rhosneigr | 3 |

Y porthladdoedd prysuraf o ran nifer y cychod cofrestredig dan 10m yng Nghymru oedd Porth Tywyn, Aberdaugleddau, Abertawe, Llanelli, Aberteifi, Caergybi, Abergwaun a Saundersfoot (Tabl 3).

**Tabl 4. Nifer y cychod sy'n defnyddio mathau gwahanol o gyfarpar**

| Y cyfarpar a ddefnyddir | Nifer y cychod |
|---|---|
| Cewyll | 170 |
| Rhwydi | 167 |
| Gwialenni a leiniau pysgota | 103 |
| Leiniau hir | 49 |
| Treillrwydi | 19 |
| Ffunennau pysgota | 15 |
| Llusgrwydi | 11 |

Cewyll, rhwydi a gwialenni a leiniau pysgota yw'r mathau o gyfarpar a ddefnyddir fwyaf (Tabl 5). Mae llawer o gychod yn defnyddio cyfuniad o gyfarpar.

**Tabl 5. Dewis iaith pysgotwyr**

| Dewis iaith | Nifer y pysgotwyr |
|---|---|
| Saesneg | 283 |
| Cymraeg | 22 |
| Cymraeg/Saesneg | 27 |

Saesneg oedd dewis iaith y rhan fwyaf o feistri cychod dan 10m yng Nghymru (Tabl 6).

**Tabl 6. Nifer y pysgotwyr sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol**

| Yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol | Nifer y pysgotwyr |
|---|---|
| Ie | 85 |
| Na | 197 |
| Facebook | 42 |
| Twitter | 0 |
| Facebook/Twitter | 4 |

Nid yw'r rhan fwyaf o bysgotwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. O'r meistri cychod sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, Facebook yw'r cyfrwng mwyaf poblogaidd (Tabl 7).

**Trafodaeth ac argymhellion**

Dangosodd y canlyniadau o ran aelodaeth o gymdeithas bysgota nad yw cyfran fawr o bysgotwyr yn aelod o gymdeithas. Mae angen inni sicrhau y gallwn gadw mewn cysylltiad â'r grŵp digynrychiolaeth hwn a'i alluogi i godi problemau yn ôl yr angen. Os caiff yr arolwg ei gynnal eto, gellid addasu'r holiadur er mwyn nodi pam nad oedd/yw cyfran mor uchel o bysgotwyr yn aelod o gymdeithas bysgota.

Nid oedd yr ymatebion i'r holiadur yn ddigonol o ran aelodaeth o gymdeithas bysgota. Ni chafodd cymdeithas benodol ei nodi mewn rhai ymatebion, a chafodd rhai holiaduron eu dychwelyd heb ateb i'r cwestiwn hwn. Yn ogystal, nid oedd y data'n gyflawn mewn rhannau eraill o'r arolwg. Os caiff yr arolwg ei gynnal eto, bydd angen inni adolygu a gwella'r holiadur, cyfarfod â chymaint o bysgotwyr â phosibl a cheisio atebion clir i gymaint o'r cwestiynau â phosibl er mwyn gweld y darlun cyflawn. Er mwyn galluogi'r arolwg i roi darlun mwy cynhwysfawr, gallem hefyd arolygu'r fflyd >10m.